CYNHADLEDD FLYNYDDOL TAI PAWB

# MORE IN COMMON

TAI PAWB ANNUAL CONFERENCE

**Dydd Mawrth 28 2023 | Neuadd y Ddinas, Caerdydd**

0900 **Cofrestru a Rhwydweithio**

0945 **Croeso i'r gynhadledd**
Alicja Zalesinska, Prif Weithredwr Tai Pawb; Helen White, Prif Weithredwr Taff Housing a chadeirydd y gynhadledd

1000 **O'r cyrion i'r canol – cefnogi pobl sydd mewn llety ansicr**
Mark Seymour & Sarah Croft, The Gap; Trudy Aspinwall, Travelling Ahead

1045 **Anerchiad gan y Gweinidog**
Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (yn ymuno'n ddigidol)

1055 **Y PRIF SIARADWR: Gwreiddio hawliau dynol yn y maes tai**
Jamie Burton CB, Doughty Street Chambers a Chyd-sylfaenydd Just Fair

1135 **EGWYL**

1145 **Dewis o dri gweithdy**
1 . 'Diogelwch cyffredin' gyda **Oliver Townsend, Platfform**
2. 'Dymchwel y rhwystrau' gyda'r **Prosiect Cyngor Anabledd a Tai Pawb**
3. 'Gyda'n gilydd i drechu tlodi ac anghydraddoldeb' gyda **Clwyd Alyn a Sefydliad Bevan**

1230 **CINIO**

1320 **Panel: Ymateb i'r her drwy QED**
Paula Kennedy, Prif Weithredwr Cartrefi Melin; Luke Takeuchi, Prif Weithredwr RHA; Oonagh Lyons, Cyfarwyddwr Tai, Newydd. Y panel yn cael ei gyflwyno gan y tenant a'r aelod o'r bwrdd, Fran Bevan

1405 **Sgwrs â'r Athro Laura McAllister**
Y sgwrs yn cael ei chyflwyno gan enillydd medalau Gemau'r Gymanwlad a'r Gemau Olympaidd, Mica Moore

1450 **EGWYL**

1500 **Dewis o dri gweithdy –** yr un rhai ag yn y sesiwn flaenorol

1540 **Creu Cymru wrth-hiliol**
Simon Lu, Tai Pawb

1615 **Sylwadau i gloi**
Alicja Zalesinska, Helen White & Craig Stephenson OBE - Cadeirydd, Tai Pawb

Primary sponsors: ClwydAlyn, RHA, united welsh

tai pawb

# MANYLION Y GWEITHDAI A BYWGRAFFIADAU'R SIARADWYR

## Diogelwch cyffredin - Oliver Townsend, Platfform

Er mwyn ffynnu, mae angen i ni deimlo'n ddiogel. Yn Platfform, mae'r gwaith a wneir yn fewnol gyda'n cydweithwyr, a'r gwaith a wneir yn allanol drwy'r cymorth sy'n cael ei gynnig i bobl, yn ceisio creu'r ymdeimlad hwnnw o ddiogelwch. Yn y gweithdy hwn, bydd Oliver yn trin a thrafod ein dealltwriaeth o iechyd meddwl a sut mae hynny'n newid y ffordd y dylen ni fod yn gweithio gyda phobl, o fewn sefydliadau a'r tu allan iddyn nhw. Bydd y gweithdy hefyd yn trafod sut mae hyn yn croestorri â chydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ffordd ymarferol.

## Dymchwel y rhwystrau - Y Prosiect Cyngor Anabledd a Tai Pawb

Mae Cymru'n wynebu argyfwng yn y maes tai i bobl anabl – nid yw'r cyflenwad o gartrefi hygyrch yn cyd-fynd â'r galw. O ganlyniad, mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael llety addas, ble bynnag maen nhw yn y 'system'. Gyda'r boblogaeth hŷn yn cynyddu, mae angen i'r sector tai ymateb er mwyn galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol yn niogelwch eu cartrefi eu hunain - ac mae'n hanfodol ymwneud â phobl yn gynnar ac yn rheolaidd yn hyn o beth. Ymunwch â'r sgwrs yn y gweithdy hwn.


## Gyda'n gilydd i drechu tlodi – Sefydliad Bevan a Clwyd Alyn

Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith aruthrol drwy Gymru. Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod mwy o blant yn llithro i mewn i dlodi. Rydyn ni'n gwybod bod cysylltiad annatod rhwng tlodi ac anghydraddoldeb, a bod rhai grwpiau o bobl yn wynebu mwy o anfanteision pan fydd ganddyn nhw nodweddion gwarchodedig.Yn y gweithdy hwn, bydd Sefydliad Bevan yn ymuno â Clwyd Alyn i bwyso a mesur y dystiolaeth ddiweddaraf o bob rhan o Gymru – gan drafod yr atebion o safbwynt strategol ac o safbwynt ymarferol ar lawr gwlad. A oes gennyn ni'r holl adnoddau y mae eu hangen arnon ni i drechu tlodi? Efallai ddim: ond fe allwn ni gydweithio i gynorthwyo unigolion a chymunedau lleol. Dewch i gymryd rhan yn y sgwrs hon am beth yn rhagor y gallwn ni'i wneud.



**JAMIE BURTON CB:** mae'n gyfreithiwr cyhoeddus ac yn gyfreithiwr sifil profiadol yn Doughty Street Chambers. Mae'n arbenigo'n benodol mewn hawliau dynol, gwahaniaethu a lles cymdeithasol. Mae Jamie yn aelod o 'Banel A' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o gyfreithwyr, ac mae'n cael ei gyfarwyddo'n rheolaidd gan elusennau a sefydliadau anllywodraethol. Mae hefyd yn cynghori awdurdodau cyhoeddus ar lefel polisi am eu dyletswyddau statudol a'u dyletswyddau ym maes hawliau dynol. Mae'n cael ei gyfarwyddo gan gwmnïau mewn adolygiadau barnwrol masnachol a hawliadau sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus.

Mae'n gweithio dros deuluoedd mewn cwestau ac yn Ymchwiliad Cyhoeddus Tŵr Grenfell mae wedi cynrychioli trigolion a ddioddefodd yn sgil y tân. Mae'n cael ei gyfarwyddo gan y prif elusennau sy'n cynrychioli pobl anabl yn Ymchwiliad Covid. Mae Jamie hefyd yn Gadeirydd ac yn gyd-sylfaenydd 'Just Fair', elusen gofrestredig sy'n gweithio'n benodol ar faterion sy'n ymwneud â hawliau dynol, ac yn enwedig hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae Just Fair wedi cael effaith sylweddol ar y ddadl am hawliau dynol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r elusen wedi llunio nifer o adroddiadau nodedig am yr argyfwng tai, tlodi bwyd a hawliau pobl anabl. Mae Jamie'n cynrychioli Just Fair yn y Cenhedloedd Unedig ac yn 2016 fe roddodd gyflwyniadau i Bwyllgor y CU ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol ynghylch sut roedd y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio â'i dyletswyddau ym maes hawliau dynol.



**YR ATHRO LAURA MCALLISTER:** Mae'r Athro McAllister yn llais adnabyddus yng nghymdeithas sifil Cymru, ac yn addysgu yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru. Mae'i hymchwil wedi canolbwyntio ar wleidyddiaeth Cymru, etholiadau, datganoli, diwygio etholiadol a rhywedd mewn gwleidyddiaeth. Arferai hi fod yn bêl-droedwraig ryngwladol – roedd hi'n gapten ar Gymru ac enillodd 24 o gapiau. Ar hyn o bryd hi yw cyd-cadeirydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, ac mae'r Athro McAllister wedi gweithio'n helaeth gyda Llywodraeth Cymru ar brosiectau amrywiol i wella gallu pobl i ymwneud â democratiaeth yng Nghymru

Mae ganddi nifer o swyddi ar lefel uchel ym myd llywodraethu chwaraeon, ac ar hyn o bryd mae'n un o Gyfarwyddwyr Bwrdd Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac yn Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Pêl-droed Menywod UEFA. Yr wythnos ddiwethaf, llwyddodd yr Athro McAllister i ddymchwel rhwystrau wrth gael ei hethol yn ddiwrthwynebiad i fod yn aelod o bwyllgor gweithredol UEFA. Hi yw'r cynrychiolydd cyntaf erioed o Gymru a'r fenyw gyntaf o gefndir pêl-droed i fod yn aelod o'r pwyllgor.